JERWOOD ARTS

I’w gyhoeddi 5 Rhagfyr 2019

# Mae Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-2022 yn lansio galwad am gynigion i fod yn Sefydliadau Cynnal i gefnogi Cymrodoriaethau creadigol, gyda’r nod o wella cynhwysiant ac amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn y sector celfyddydol a diwylliannol

Mae Jerwood Arts heddiw, 5ed Rhagfyr, yn cyhoeddi manylion Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-2022. Mae’r rhaglen hon, sy’n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig, yn edrych am 50 o Sefydliadau Cynnal celfyddydol neu ddiwylliannol blaenllaw i wella cynhwysiant ac amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn y celfyddydau, gan gynnwys drwy greu 50 o Gymrodoriaethau creadigol blwyddyn o hyd, gyda chyflog.

Gan adeiladu ar lwyddiant a phrofiad y tri thro blaenorol y cynhaliwyd y rhaglen, bydd WJCB 2020-2022 am y tro cyntaf yn canolbwyntio ar newid sefydliadol oddi mewn i’r Sefydliadau Cynnal. Bydd y rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau celfyddydol neu ddiwylliannol sy’n barod i ehangu eu dull o weithio ym maes amrywiaeth wrth recriwtio a datblygu talent, a chynyddu eu gallu o ran cynhyrchu artistig a diwylliannol rhagorol.

Am y tro cyntaf, mae ceisiadau’n agored i unrhyw sefydliad celfyddydol neu ddiwylliannol sy’n cyflawni’r meini prawf, ac mae hynny bellach yn galw am ymrwymiad ar lefelau llywodraethu, artistig a gweithredol i ymwneud â’r rhaglen â’u Cymrawd. Bwriad y newidiadau yw annog sefydliadau i gofleidio ac ymwreiddio’r newidiadau diwylliannol sydd eu hangen er mwyn i Gymrodyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol sydd wedi’u tangynrychioli yn y sector celfyddydol a diwylliannol ffynnu yn gynnar yn eu gyrfaoedd. Caiff Sefydliadau Cynnal llwyddiannus eu cynorthwyo i wireddu eu huchelgeisiau drwy gyfrwng rhaglen 18 mis o Newid Sefydliadol o dan arweiniad People Make It Work.

Mae gwybodaeth am sut i wneud cais i fod yn Sefydliad Cynnal bellach ar gael drwy borth ar wefan Jerwood Arts. Mae angen i geisiadau gan ddarpar Sefydliadau Cynnal gael eu cyflwyno erbyn 30 Ionawr 2020, a bydd y gwaith o recriwtio Cymrodyr, a gaiff ei wneud gan bob Sefydliad Cynnal, yn digwydd o fis Mai ymlaen. Bydd pob un o’r 50 o Gymrodoriaethau yn dechrau ym mis Medi 2020 ac yn para am 12 mis, ac wedi hynny bydd cymorth dros ‘gyfnod dilyniant’ i’r Cymrodyr.

Caiff rhaglen WJCB ei chyfarwyddo gan ymchwil a phrofiad helaeth Jerwood Arts yn cefnogi gyrfaoedd diwylliannol ac artistig. Gan ymateb i gychwyn i faterion gan gynnwys y defnydd cyffredin o interniaethau di-dâl ac arferion recriwtio gwael, ers 2010 bu’r rhaglen yn eirioli dros leisiau newydd ac yn hybu’r potensial ar gyfer newid cadarnhaol drwy rannu tystiolaeth o arferion gorau o ran recriwtio a datblygu talent.

Mae mynediad teg at waith yn y celfyddydau yn parhau i fod yn un o’r materion mwyaf brys sy’n wynebu’r sector celfyddydol a diwylliannol, wrth i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is barhau i fod wedi’u

tangynrychioli'n sylweddol ymysg artistiaid a gweithwyr theatrau, gwyliau, orielau a sefydliadau celfyddydol o bob math yn y Deyrnas Unedig.

Y pedwerydd tro hwn i raglen WJCB gael ei gynnal fydd y mwyaf eto, ar ôl sicrhau o gymorth gan Raglen Trawsnewid Arweinyddiaeth Arts Council England, Sefydliad Garfield Weston, y Gronfa Gelf, Cyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland a Sefydliad PRS, er mwyn gallu cynyddu maint y rhaglen i 50 a chynnig 10 o Sefydliadau Cynnal a Chymrodyr yn ychwanegol, gan ehangu i'r sector amgueddfeydd am y tro cyntaf. Caiff y rhaglen ei chynorthwyo gan dîm hyfforddiant, ymchwil a gwerthuso People Make It Work, Dr Dave O'Brien (Cymrawd y Canghellor mewn Astudiaethau Diwylliannol ym Mhrifysgol Caeredin), ac Annabel Jackson Associates Ltd.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Jerwood Arts a'r Bridge Group ddogfen 'Cynhwysiant ac Amrywiaeth Economaidd-Gymdeithasol yn y Celfyddydau: Pecyn Cymorth i Gyflogwyr'. Mae'r canllaw ymarferol hwn yn cefnogi newid hirdymor ar draws y sector celfyddydol a diwylliannol drwy rannu gwybodaeth, darparu cyngor da, ac annog sefydliadau i ystyried sut mae elfennau'n croestorri wrth ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r canllaw'n cyfuno syniadau ymarferol o raglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, ynghyd ag astudiaethau achos o blith Sefydliadau Cynnal blaenorol, ac ymchwil a chyngor arbenigol o sectorau eraill a gynhaliwyd gan y Bridge Group.

Meddai Lilli Geissendorfer, Cyfarwyddwr Jerwood Arts:

"Nod WJCB bob amser fu sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn yr un modd ar draws y pwyntiau mynediad hynod gystadleuol ar ddechrau gyrfa i artistiaid, curaduron, cynhyrchwyr a gweithwyr creadigol rhagorol. Mae'n sicrhau bob gan bobl sydd â thalent, ond heb gefnogaeth ariannol, gyfle i lwyddo. Yn y rhaglen y tro hwn, rydym yn falch ein bod wedi denu cyllid ychwanegol er mwyn cynnig rhagor o Gymrodoriaethau mewn rhagor o leoedd ledled y Deyrnas Unedig, ac er mwyn ehangu i'r sector amgueddfeydd. Byddwn yn canolbwyntio gymaint ar weithio mewn partneriaeth â Sefydliadau Cynnal i greu newid hirdymor ag y byddwn ar y Cymrodyr unigol. Mae'r 110 o Sefydliadau Cynnal a'r 125 o Gymrodyr a fu'n rhan o'r rhaglen o'r blaen wedi dangos y ffordd inni, ac rydym yn eiddgar i gael cychwyn ar y rhaglen y tro hwn er mwyn cynorthwyo sefydliadau i ddarganfod cenhedlaeth newydd o ddarpar arweinwyr celfyddydol a diwylliannol. Gallant hefyd ddatblygu i fod yn eiriolwyr ac yn esiampl o'r newid diwylliannol a fydd yn sicrhau'r amrywiaeth, y cynhwysiant a'r gynrychiolaeth sydd eu hangen ar y sectorau celfyddydol a diwylliannol."

*Mae rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-2022 wedi'i chynllunio a'i chynhyrchu gan Jerwood Arts. Caiff ei hariannu a'i chefnogi gan Gronfa Trawsnewid Arweinyddiaeth Arts Council England, Sefydliad Garfield Weston, y Gronfa Gelf, Cyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland, British Council, Jerwood Arts a Sefydliad PRS.*

**–DIWEDD–**

I gael mwy o wybodaeth am Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, cysylltwch â Maggie Eckel a Harriet Clarke yn Four Culture:

Maggie.Eckel@fourcommunications.com | +44 (0) 20 3761 4475

Harriet.Clarke@fourcommunications.com | +44 (0) 20 3697 4239

Jerwood Arts

Jerwood Arts yw'r prif gyllidwr annibynnol sy'n gweithio'n benodol i gynorthwyo artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr rhagorol yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu a ffynnu. Rydym yn cydweithio â sefydliadau ar draws ffurfiau ar gelfyddyd i ddychmygu sector sy'n fwy cynaliadwy. Mae ein rhaglenni'n rhoi cyfleoedd sy'n gweddnewid bywydau i unigolion yn gynnar yn eu gyrfaoedd drwy gyfrwng gwobrau, cymrodoriaethau a chomisiynau, a chyflwynwn arddangosfeydd yn ein horiel yn Llundain ac ar daith ledled y wlad.

jerwoodarts.org

Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-2022

Mae rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-2022 yn rhoi cyfle i bobl dalentog o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol sydd wedi'u tangynrychioli yn y celfyddydau ddatblygu a ffynnu, a hynny mewn ffordd a fydd yn cyflwyno newid mawr yn eu bywydau. Mae'r rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth â 50 o Sefydliadau Cynnal i greu 50 o Gymrodoriaethau creadigol blwyddyn o hyd i ehangu eu gallu i gynhyrchu'n artistig a chymryd rhan mewn rhaglen 18 mis o Newid Sefydliadol.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau i fod yn Sefydliad Cynnal: 30 Ionawr 2020

Recriwtio Cymrodyr: Mai – Mehefin 2020

Cymrodoriaethau: Medi 2020 – Medi 2021

*Mae rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood 2020-2022 wedi'i dylunio a'i chynhyrchu gan Jerwood Arts. Caiff ei hariannu a'i chefnogi gan Gronfa Trawsnewid Arweinyddiaeth Arts Council England, Sefydliad Garfield Weston, y Gronfa Gelf, Cyngor Celfyddydau Cymru, Creative Scotland, British Council, Jerwood Arts a Sefydliad PRS.*

People Make it Work

Mae People Make it Work yn helpu sefydliadau diwylliannol i newid a datblygu. Gydag 19 mlynedd o brofiad, mae'r tîm o 45 yn gweithio gyda thua 80 o sefydliadau bob blwyddyn, o amgueddfeydd, orielau, theatrau a thai opera cenedlaethol, i ficro-elusennau a chydweithfeydd o dan arweiniad artistiaid. Mae'r cwmni'n adnabyddus am waith cynhwysol, cydweithredol yn helpu sefydliadau i newid eu diwylliannau, ailddychmygu eu modelau busnes ac adeiladu cynulleidfaoedd newydd drwy adfywio eu cynnyrch creadigol. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm wedi arwain yn ein sefydliadau diwylliannol (gan gynnwys yn TATE, British Council, Arts Council England, BAC, Cockpit, ICA, BBC, MIMA a NESTA). Cynhaliwn raglenni hyfforddiant a datblygu ysgogol i'r sector celfyddydol, a'r rheini wedi'u wedi'u dylunio ar y cyd ac sy'n seiliedig ar garfan o bobl – gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu cydweithredol sy'n grymuso, galluogi a chynorthwyo i wireddu potensial unigolion. Rhown ffocws ar newid sefydliadol drwy arweinyddiaeth pob gweithiwr.

peoplemakeitwork.com